**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad drafft**

**CLA**

**Teitl: Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, ar gyfer gweinyddu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu'r rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608) ("y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol") a'r tri o Reoliadau cysylltiedig eraill yr UE y cyfeirir atynt yn rheoliad 2(1).

**Gweithdrefn**: **Negyddol**

**Materion technegol: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Mae rheoliad 17 yn honni ei fod yn diddymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010 a Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2012. Diddymwyd y Rheoliadau hynny'n flaenorol gan Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 ('Rheoliadau 2014'). Mae Rheoliad 17 a Rheoliadau 2014 yn cynnwys darpariaethau arbed, ond nid yw'n eglur beth yw effaith gyfunol dirymiad dwbl a dwy gyfres o ddarpariaethau adfer. [Mae angen eglurhad pellach o ran Rheol Sefydlog 21.2 (v) a (vi) - oherwydd drafftio diffygiol.]

**Rhagoriaethau: Craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Mai 2015 ac mae rheoliad 10(1) yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 15 Mai. Nid yw'r Rheoliadau na'r Memorandwm Esboniadol yn egluro sut y disgwylir i ymgeiswyr gydymffurfio â'r terfyn amser cyfyngedig iawn hwn. Dylai'r Memorandwm Esboniadol fod wedi egluro pa gamau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru cyn y daw'r Rheoliadau i rym, er mwyn galluogi ceisiadau i gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau hwnnw. [Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.]

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Mai 2015**